## **Taith o’r Môr i’r Andes**

(Penillion i blant Ysgol Gymraeg y Gaiman, dosbarth Rebeca, Mai 2022)

Mae Gwladfa Patagonia
Yn hyfryd ac yn braf;
Os gaeaf yw yng Nghymru,
Fan yma mae hi’n haf.

Dilynwn afon Camwy
O’r môr i’r Andes bell,
I weld lle daeth y Cymry
I geisio byd oedd well.

Rhaid cychwyn ym Mhorth Madryn,
Lle glaniodd ar y traeth
Fintai o Gymry’r Mimosa
I fyw, er gwell, er gwaeth.

Oddi yno i Drerawson,
I loches ger y lli,
Cyn troedio Dyffryn Camwy,
Dewch, dilynwch ni.

Trelew, y dref go lew,
Llawn pobl a siopau mawr,
Heibio Llyn Chiquichano
Ac awn ymlaen yn awr.

Cyrraedd draw i’r Gaiman
Am groeso a the Cymreig
A theimlo gwres y galon
Wrth weld baneri’r Ddraig.

Dolavon yw’r dref nesa,
Â’i strydoedd llydan braf;
Lle gwelwn yr olwynion
Yn dyfrio yn yr haf.

Tir Halen yw'r lle olaf
Ar lawr y dyffryn mawr.
Neu 28 de Julio
Sy'n enw arall nawr.

Mae taith go faith ar draws y paith
I gyrraedd draw i'r Andes;
I wlad y gauchos a'u ceffylau hardd
A'u croeso, sydd mor gynnes.

Trevelin, Esquel a Chwm Hyfryd,
Ac estancias mawr y paith,
A Gorsedd y Cwmwl anferth
Sy'n nodi diwedd y daith.

**Twm Elias**